



Office of the
Public Guardian

SD3



Sut i fod yn ddirprwy

Penderfyniadau eiddo ac ariannol

Cynnwys

Dechrau arni	3
Beth y mae'r OPG yn ei wneud?	4
Eich camau cyntaf fel dirprwy	5
Eich rôl fel dirprwy	16
Penderfyniadau cyffredin fel dirprwy	20
Sut fydda i'n cael fy ngoruchwyllo fel dirprwy?	26
Newid eich rôl ddirprwyo	28
Pryd fydd y rôl ddirprwyo'n gorffen?	29
Rhestr wirio ar gyfer dirprwyon	30
Eglurwr jargon	31

Nid oes raid i chi ddarllen y llawlyfr hwn i gyd ar unwaith. Ei bwrpas yw bod yn gyfeirlyfr ac mae wedi'i rannu'n rhannau i helpu gyda gwahanol agweddau ar eich rôl ddirprwyo.

Dechrau arni

Mae'r llawlyfr hwn ar gyfer dirprwyon a benodir gan y Llys Gwarchod i wneud penderfyniadau eiddo ac ariannol i bobl heb alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau o'r fath eu hunain.

Mae bod yn ddirprwy'n gyfrifoldeb pwysig. Mae'r gorchymyn llys a anfonir atoch gan y Llys Gwarchod yn dweud dros bwy yr awdurdodir chi i wneud penderfyniadau ac am beth.

Cofiwch ddarlennu a sicrhau eich bod yn deall y gorchymyn llys a'r Safonau Dirprwyon llawn. Maen nhw ar gael yn www.gov.uk/government/publications/opg-deputy-standards.

Os oes unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall, cysylltwch â Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG).

Os yw hyn i gyd yn newydd ac yn teimlo braidd yn frawychus, peidiwch â phoeni, dydych chi ddim ar ben eich hun. Os oes angen help arnoch i wneud penderfyniad, cofiwch holi barn aelod o'r teulu neu gynghorydd ariannol.

Yn y llawlyfr hwn, defnyddiwn hanesion dirprwyon eraill i ddangos beth i'w ystyried wrth wneud penderfyniadau. Nid ydynt yn atebion terfynol ond gallent eich helpu i weithredu wrth wneud penderfyniadau tebyg.

Mae'r eglurwr jargon A-Z ar ddiwedd y llawlyfr hwn yn egluro termau sydd efallai'n ddieithr.

Drwy gydol y llawlyfr hwn, cyfeiriwn at 'y person' y byddwch yn gwneud penderfyniadau eiddo ac ariannol drostynt. Mewn manau eraill byddwn yn cyfeirio atynt hefyd – yn fwy swyddogol – fel 'P', sef y term a ddefnyddir yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005.

Beth y mae'r OPG yn ei wneud?

Mae'r OPG yn rhan o'r llywodraeth sy'n eich goruchwyllo yn eich rôl ddirprwyo a gwneud yn siŵr eich bod yn gweithredu er budd gorau'r person.

Bydd gennych ddau gyswllt cynnar gyda'r OPG:

1. Llythyr yr anfonwn atoch ar ôl eich penodi, yn awgrymu amser ar gyfer ein galwad 'setlo mewn' ragarweiniol i drafod eich rôl ddirprwyo.
2. Bydd yr alwad setlo mewn ei hun, yn para hyd at awr, gyda'ch rheolwr achos i drafod pethau fel:
 - telerau eich gorchymyn llys
 - sefyllfa ariannol bresennol y person
 - sut i wneud penderfyniadau fel dirprwy
 - beth ddylech a ddylech ddim gwario arian arno

Mae gan yr OPG lwyth o wybodaeth ddefnyddiol am fod yn ddirprwy, ond ni all roi cyngor cyfreithiol nag ariannol – am hynny dylech siarad â chyfreithiwr neu gyfrifydd.

Goruchwyliaeth Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
 PO Box 16185
 Birmingham B2 2WH
 Rhif ffôn: 0300 456 0300
 Relay UK (os na allwch glywed neu siarad ar y ffôn): 18001
 0300 123 1300
 Ffonio o'r tu allan i'r DU: +44 (0)203 518 9639
 Oriaau agor ar gyfer ffonio: Dydd Llun – Dydd Gwener,
 9am - 5pm (Dydd Mercher - 10am - 5pm)
 E-bost: laydeputysupport@publicguardian.gov.uk

Eich camau cyntaf fel dirprwy

- ① Dod i adnabod y person (os oes angen)
- ② Trefnu eich bond gwarant
- ③ Derbyn a gwirio eich gorchymyn llys
- ④ Darllen a deall y safonau dirprwyon
- ⑤ Rhoi gwybod i bobl eich bod yn ddirprwy
- ⑥ Diogelu asedau'r person ac agor cyfrif(on) dirprwy ar wahân
- ⑦ Talu ffioedd dirprwy
- ⑧ Cofrestru am y gwasanaeth ar-lein a dechrau ei ddefnyddio
- ⑨ Cyflwyno eich adroddiad dirprwy ar-lein

Eich camau cyntaf fel dirprwy

① Dod i adnabod y person yr ydych yn gwneud penderfyniadau drostynt

Os nad oeddech yn adnabod y person y byddwch yn gweithredu drostynt fel dirprwy eiddo a materion ariannol, dylech ddechrau dod i'w hadnabod rŵan. Y brif reol wrth wneud penderfyniadau eiddo ac ariannol dros y person yw y dylai'r penderfyniadau hynny fod er budd gorau'r person bob tro.

Rhaid i'ch penderfyniadau gyd-fynd â maint ystâd y person – eu heiddo a sefyllfa ariannol – ond mae pethau eraill i'w hystyried hefyd. Os oes gan y person alluedd meddyliol weithiau ond nid dro arall ('galluedd mynd a dod'), dylech nodi'r math o benderfyniadau a wneir ganddynt pan fydd ganddynt alluedd meddyliol.

Os oedd gan y person alluedd meddyliol ar un adeg ond nid bellach, dylech ystyried sut fath o benderfyniadau ariannol a wnaethant pan oedd ganddynt alluedd.

Gofynnwch i bobl eraill, fel ffrindiau agos a pherthnasau, am hoff a drwg-bethau'r person, eu dymuniadau, credoau a phenderfyniadau blaenorol os oedd ganddynt alluedd meddyliol unwaith.

Defnyddiwch y ffynonellau gwybodaeth hyn i dywys eich penderfyniadau fel dirprwy.

② Trefnu eich bond gwarant

Bydd angen i ddirprwyon eiddo a materion ariannol dalu bond gwarant cyn y bydd y Llys Gwarchod yn anfon eu gorchymyn dirprwy.

Pwrrpas y bond yw gwarchod ystâd y person yr ydych yn gweithredu drostynt os methwch â chyflawni eich dyletswyddau dirprwyo.

Wrth osod bond, bydd y llys yn ystyried pethau fel:

- maint ystâd y person
- y math o fynediad sydd gennych ati

Byddwch yn talu'r bond o arian y person (neu gallwch ei dalu eich hun a thalu eich hun yn ôl unwaith y bydd gennych fynediad at ystâd y person).

Ni allwch ddechrau gweithredu ar ran y person nes y byddwch wedi talu'r premiwm ar y bond gwarant.

Cwmnïau bond:

Mae'r Llys Gwarchod yn argymhell defnyddio cwmnïau bond cymeradwy sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn cwrdd â'r gofynion iawn.

Gallwch ddewis cwmni bond arall ond cofiwch sicrhau eu bod yn cwrdd â safonau'r llywodraeth – ffoniwch yr OPG am gyngor. Bydd llythyr gan y llys yn egluro wrthyf sut i dalu eich bond.

Rhaid i chi wneud cais i'r Llys Gwarchod, nid i'r OPG, os credwch fod lefel eich bond yn anghywir.

③ Derbyn a gwirio eich gorchymyn llys

Mae gorchymynion llys yn wahanol i bob rôl ddirprwyo. Pan fydd y Llys Gwarchod yn anfon eich gorchymyn, dylech ddod yn gyfarwydd â'r union fath o benderfyniadau y mae'n dweud y gallwch eu gwneud dros y person.

Dyma rai penderfyniadau cyffredin y mae gorchymyn eiddo a materion ariannol yn darparu ar eu cyfer:

- talu am ofal, er enghraifft cartref nyrsio
- prynu neu werthu eiddo
- gwneud buddsoddiadau
- rhoi rhoddion i bobl
- darparu ar gyfer dibynyddion

Darllenwch drwy'r gorchymyn llys yn ofalus i wirio am wallau fel camstillafu enwau. Os oes unrhyw wallau, cysylltwch â'r Llys Gwarchod yn syth i'w cael wedi eu cywiro.

Am wallau mwy difrifol, bydd angen i chi lenwi ac anfon ffurflen COP9 at y llys. Mae hon i'w chael yn www.gov.uk/become-deputy/when-youre-appointed.

Dylid ei hanfon at y llys o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad yr anfonwyd y gorchymyn atoch.

Os nad ydych wedi dweud wrth y llys am unrhyw wallau o fewn 21 diwrnod, gallech orfod talu am gais arall i gywiro'r broblem.

Dim ond penderfyniadau ar ran y person am y pethau y mae'r Llys Gwarchod wedi eu hawdurdodi y gallwch eu gwneud. Os byddwch eisiau gwneud penderfyniadau eraill, rhaid i chi wneud cais i'r Llys i newid y gorchymyn dirprwy.

Rhif ffôn y Llys Gwarchod:

0300 456 4600

E-bost: courtprotectionenquiries@hmcts.gov.uk

Dydd Llun - Dydd Gwener 9am-5pm.

④ Darllen a deall y safonau dirprwyon.

Mae'r OPG wedi [cyhoeddi safonau](#) sy'n egluro'r holl bethau y disgwylir i bob dirprwy eu gwneud er mwyn cyflawni eu dyletswyddau. Disgwylir i chi gwrdd â'r safonau ar gyfer dirprwyon llebyg.

Mae [dogfen ganllawiau](#) hefyd wedi'i chyhoeddi'n egluro mwy am sut i gwrdd â'r safonau a rhestru'r pethau sy'n rhaid i chi eu gwneud ar ôl derbyn eich gorchymyn dirprwy.

⑤ Rhoi gwybod i bobl eich bod yn ddirprwy

Mae angen i chi ddweud wrth rai unigolion a sefydliadau y mae'r person yn ymwneud â nhw eich bod yn ddirprwy drostynt. 'Cofrestru' y rôl ddirprwyo yw hyn. Dyma rai enghreifftiau:

- yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ar gyfer pensiwn y wlad neu fudd-daliadau y mae'r person yn gymwys i'w derbyn
- banciau / cymdeithasau adeiladu / cwmnïau yswiriant bywyd / Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol
- talwr unrhyw bensiwn preifat
- cyfreithiwr sydd ag ewyllys a / neu weithredoedd eiddo'r person yn eu meddiant
- cartref gofal neu nyrso, neu ysbyty
- awdurdod lleol - ar gyfer budd-dal tai neu help awdurdod lleol gyda ffioedd.

Bydd angen i chi ddangos y canlynol i unrhyw gyrff ariannol y byddwch yn delio gyda nhw ar ran y person:

- copi gwreiddiol wedi'i selio o'r gorchymyn dirprwy (efallai na fyddant yn derbyn llungopiau)
- prawf o'ch enw a chyfeiriad chi a'r person

Os bydd angen i chi anfon eich gorchymyn dirprwy i rywle wrth gofrestru eich rôl fel dirprwy, gofynnwch am iddo gael ei anfon yn ôl atoch neu gallech redeg allan o gopiau. Gallwch gael mwy o gopiau, yn costio £5 yr un, gan y Llys Gwarchod.

⑥ Diogelu asedau'r person ac agor cyfrif(on) dirprwy ar wahân

Unwaith y bydd gennych fynediad at gyfrifon y person ac yn gwybod beth yw eu ffynonellau incwm ac asedau, gallwch greu rhestr lawn o gynnwys eu hystâd. Dylech dalu unrhyw filiau heb eu talu a chanslo unrhyw daliadau sy'n amherthnasol mwyach.

Cyfrifon ar wahân

Mae'r rhan fwyaf o ddirprwyon yn agor cyfrif(on) ar wahân i osgoi cymysgu arian y person a'u harian nhw. Ar ôl i chi greu cyfrif dirprwy ar wahân, gallech drefnu Debydau Uniongyrchol i'w gwneud yn haws i ofalu am daliadau rheolaidd y person.

Weithiau mae rheswm da dros beidio â chadw arian y person ar wahân. Er enghraifft, gallech fod yn ddirprwy i'ch gwraig neu wr a gyda chyfrif ar y cyd ers blynnyddoedd. Os ydych yn ansicr, gallwch drafod cadw cyfrif yn un ar wahân gyda'ch rheolwr achos yn yr OPG.

⑦ Talu unrhyw ffioedd dirprwy

Byddwch yn talu ffioedd yr OPG am oruchwyllo eich rôl ddirprwy o arian y person, nid eich arian eich hun. Mae'r ffioedd yn cynnwys:

- ffi asesu dirprwy untro'n unig o £100
- ffi oruchwyllo flynyddol o naill ai £320 neu £35 gan ddibynnu ar faint o asedau sydd gan y person a lefel yr oruchwyliaeth sydd ei angen

Os oes gan y person incwm isel, gallwch wneud cais am 'esemptiad' (talw dim ffi) neu 'gwtogi ffi' (talw ffi is) ar gyfer y ffioedd asesu a goruchwyliaeth.

Ffi asesu

Ffi unwaith yn unig yw hon am asesu amgylchiadau pob rôl ddirprwy. Mae'r OPG yn gofyn am dalu'r ffi yma'n gynnar yn eich rôl ddirprwy. Os talwch y ffi cyn cael mynediad at arian y person, gallwch dalu eich hun yn ôl nes ymlaen.

Ffi goruchwyllo

Mae ffi flynyddol hefyd o £320 i dalu am gost goruchwyllo eich rôl ddirprwy. Mae'r ffi yma weithiau'n llai - £35 – ar ôl blwyddyn gyntaf eich rôl ddirprwy.

Mae ffioedd goruchwyllo'n cael eu bilio tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, ym mis Ebrill. Yn eich blwyddyn gyntaf, dim ond am y rhan o'r flwyddyn y buoch yn ddirprwy sydd angen talu.

I ddysgu mwy am dalu dim ffi neu dalu ffi is, ac i gael ffurflen gais i dalu llai, ewch i www.gov.uk/government/publications/deputy-fees-remission-or-exemption

⑧ Dechrau cadw cofnodion o benderfyniadau a thrafodion ariannol

Mae cadw cofnodion ariannol yn un o ddyletswyddau cyfreithiol dirprwy – rhaid i chi eu cynnwys yn adroddiad y dirprwy a gyflwynwch o leiaf unwaith y flwyddyn.

Gan ddefnyddio'r gwasanaeth adrodd ar-lein (isod), dylech ddechrau cadw cofnodion o drafodion ariannol a phenderfyniadau eiddo ac arian y person cyn gynted â phosib. Gallai'r penderfyniadau gynnwys:

- gwneud buddsoddiad ar ran y person
- gwerthu rhai o asedau'r person
- defnyddio arian y person i brynu rhodd i rywun

Os ydych wedi ymgynghori â phobl eraill ar benderfyniad ariannol, cofiwch nodi hynny yn eich adroddiad ar-lein hefyd.

Rhaid i chi gadw derbynebaw, datganiadau banc ac anfonebau fel cofnod o'ch gwariant. Gallai'r OPG ofyn i chi gyflwyno'r rhain pan fydd yn adolygu eich adroddiad dirprwy.

Nid oes angen i chi gadw cofnod o wariant y person ei hun os oes ganddynt lwfans bach neu arian poced.

9 Cyflwyno eich adroddiad dirprwy

Fel y bydd eich gorchymyn llys yn ei nodi, rhaid i chi gwblhau adroddiad ar ddiwedd pob blwyddyn fel dirprwy. Weithiau bydd yr OPG yn gofyn i chi adrodd am gyfnod byrrach.

Byddwch yn cwblhau eich adroddiad dirprwy ar-lein. Mae'r gwasanaeth ar-lein yn gadael i chi gofnodi penderfyniadau a thrafodion ariannol wrth fynd, felly bydd llai i chi ei wneud ar ddiwedd y flwyddyn. I ddysgu mwy ewch i www.gov.uk/deputyreport

Gallwch gofrestru ar gyfer y gwasanaeth ar-lein cyn gynted ag y byddwch wedi cael eich rhif achos dirprwy gan yr OPG.

I ddechrau arni, ewch i www.gov.uk/deputyreport

Os byddwch yn cael trafferth adrodd ar-lein, gallwch ffonio tîm dirprwyon yr OPG ar 0300 456 0300.

Dydd Llun-Dydd Gwener, 9am-5pm; Dydd Mercher, 10am-5pm.

Ffonio o'r tu allan i'r DU: +44 (0)203 518 9639

Relay UK (os na allwch glywed neu wrando ar y ffôn): 18001 0300 123 1300

Mae'r OPG yn defnyddio eich adroddiad i wirio bod arian y person yn cael ei wario er budd gorau'r person ac i fonitro eich ymwneud â'r person. Dylai'r adroddiad gynnwys:

- penderfyniadau ariannol sylweddol a wnaethoch ar ran y person
- sut y gwnaethoch gynnwys y person (os oedd yn bosib) yn y penderfyniadau
- manylion yr holl arian oedd gan y person yn ystod y flwyddyn
- taliadau a wnaethoch ar ran y person
- gwerth presennol asedau a buddsoddiadau'r person Bydd

yr OPG yn anfon llythyr i'ch atgoffa i gyflwyno eich adroddiad dirprwy.

Os na chyflwynwch eich adroddiad pan fydd yr OPG yn gofyn amdano, neu os bydd gan yr OPG bryderon eraill amdano, byddwn yn adolygu eich rôl ddirprwy. Yn y pen draw gallai hyn olygu gwneud cais i'r Llys Gwarchod i'ch dileu fel dirprwy a phenodi rhywun arall yn ddirprwy yn eich lle.

Mae Cod Ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol (MCA) 2005 yn rhoi llawer mwy o fanylion ac enghreifftiau o sut y gall dirprwyon weithredu.

Gallwch archebu neu lawrlwytho copi yn www.gov.uk/opg/mca-code

Eich rôl fel dirprwy

Beth y mae galluedd meddyliol yn ei feddwl?

'Galluedd meddyliol' yw gallu gwneud penderfyniad penodol pan fydd angen ei wneud. Mae gan berson gyda galluedd meddyliol ddealltwriaeth gyffredinol o leiaf o:

- y penderfyniad sydd angen iddynt ei wneud
- pam fod angen ei wneud
- unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad
- beth fyddai canlyniadau tebygol y penderfyniad

Dylent fod yn gallu dweud wrth bobl eraill am eu penderfyniad drwy siarad, ystumiau neu ffyrdd eraill fel cyfarpar adnabod llais.

Gall pobl weithiau wneud rhai mathau o benderfyniadau ond heb alluedd meddyliol i wneud eraill. Er enghraifft, gallai rhywun fod yn gallu penderfynu pa fwyd ayyb i'w brynu, ond yn methu â deall sut i wneud buddsoddiadau ariannol.

Galluedd Meddyliol: pum egwyddor

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 – sy'n rheoli beth y gall dirprwyon ei wneud – yn nodi pum egwyddor ar gyfer galluedd meddyliol. Mae'r egwyddorion yn effeithio arnoch fel dirprwy yn y ffyrdd canlynol:

1. Dylai'r person wneud penderfyniadau drostynt eu hunain oni bai y gallwch ddangos na fedrant.
2. Mae angen i chi roi'r holl help sydd ei angen ar y person i wneud penderfyniad cyn penderfynu na fedrant wneud y penderfyniad hwnnw.
3. Os yw'r person yn gwneud beth sy'n ymddangos i fod yn benderfyniad annoeth neu ryfedd, nid yw'n golygu nad oes ganddynt alluedd i'w wneud. (Mae llawer o bobl yn gwneud penderfyniadau annoeth o bryd i'w gilydd).
4. Rhaid i unrhyw benderfyniad a wnewch i'r person fod er budd gorau'r person – eglurir y pwynt pwysig hwn ymhellach isod.
5. Dylai unrhyw beth a wnewch ar ran person sydd heb alluedd gyfyngu cyn lleied â phosib ar eu hawliau sylfaenol.

Enghraifft: Gwybod pan fydd gan rywun alluedd meddyliol*

Mae gan Khaled anhwylder deubegynnol ac yn y gorffennol wedi mynd ar sawl sbri o wario gan arwain at iddo fynd i ddyled yn drwm. Mae'r Llys Gwarchod wedi penodi ei dad, Ali, fel ei ddirprwy eiddo a materion ariannol.

Mae Khaled wedi etifeddu arian gan ei ewythr ac mae ei dad eisiau gwybod a all gyfrannu at benderfyniadau ynghylch sut i'w wario. Mae ei dad yn meddwl y byddai'n well i'r arian gael ei roi tuag at brynu fflat ei hun i Khaled fyw ynddi.

Yn y gorffennol, pan ofynnwyd iddo am benderfyniadau gwario mawr, mae Khaled wedi bod eisiau prynu pethau amhriodol – o gofio nad yw ei ystâd yn fawr – fel sbortscar a gwyliau moethus. Y tro hwn, fodd bynnag, mae Khaled fel petai'n dangos dealltwriaeth dda o fanteision ac anfoneision prynu ei fflat ei hun.

Mae Ali'n penderfynu bod gan Khaled alluedd meddyliol ar y funud i gyfrannu at y penderfyniad i brynu eiddo. Mae Khaled yn cytuno y byddai prynu ei fflat ei hun yn ffordd dda o wario ei etifeddiaeth.

* Mae'r enghreifftiau yn y llawlyfr hwn yn defnyddio cymeriadau a sefyllfaoedd dychmygol i'ch helpu i wneud penderfyniadau fel dirprwy

Sut alla i helpu'r person i wneud penderfyniad drostynt eu hunain?

Gallai rhai pobl fod â galluedd meddyliol weithiau ond nid bob amser. Os yw'r person fel arfer yn fwy bywiog gyda'r nos er enghraifft, efallai mai bryd hynny y byddai'n well eu cynnwys mewn penderfyniadau.

Gallai'r person hefyd fod yn fwy ymatebol os dewiswch y lle iawn i ofyn am benderfyniadau – efallai yn eu cartref yn hytrach na mewn amgylchedd anghyfarwydd.

Gallech ddefnyddio ffyrdd eraill o gyfathrebu. Ceisiwch ddefnyddio lluniau neu iaith arwyddion i egluro penderfyniad, er enghraifft.

Weithiau gall person ond fod angen ychydig yn fwy o amser i chi egluro penderfyniad.

Enghraifft: Helpu rhywun i wneud penderfyniad

Mae Luke wedi dioddef difrod i'r ymennydd ar ôl damwain yn y gwaith a bellach yn mynd yn ddryslyd a rhwystredig am wneud llawer o benderfyniadau. Mae'n byw gyda'i chwaer Marjorie ac mae'r Llys Gwarchod wedi ei phenodi hi fel ei ddirprwy eiddo a materion ariannol.

Mae'r Nadolig yn nesáu ac mae Marjorie eisiau cynnwys Luke mewn prynu anrhegion. Mae'n gofyn i Luke gyda'r nos yn gyntaf pa anrhegion y byddai'n hoffi ei brynu i bob perthynas. Fodd bynnag, mae'n cael trafferth gwahaniaethu rhwng y perthnasau ac yn dechrau cynhyrfu. Mae Marjorie yn cofio bod Luke weithiau'n ymddangos yn fwy effro ar ôl brecwast. Mae'n gofyn iddo eto am yr anrhegion bryd hynny. Y tro hwn mae Luke yn gallu mynegi ei farn yn llawer cliriach am ba anrhegion i'w prynu i bob perthynas.

Sut ydw i'n penderfynu beth sydd er budd gorau'r person?

Yn ôl y gyfraith rhaid i chi weithredu bob tro er budd gorau'r person. Felly rhaid i chi wneud penderfyniadau er mantais i'r person ac nid o reidrwydd i chi neu rywun arall.

Sut ydw i'n penderfynu beth sydd er budd gorau'r person?

- eu dymuniadau blaenorol a phresennol
- eu credoau a gwerthoedd
- barn teulu a gofalwyr
- a allent adennill eu galluedd meddyliol ac a allech ohirio'r penderfyniad tan hynny

Pobl eraill sy'n gwneud penderfyniadau

Ni allwch benderfynu pob dim i'r person – dim ond penderfyniadau y mae'r gorchymyn llys yn dweud y gallwch eu gwneud.

Dylech osgoi dod i gasgliadau am beth fyddai er budd gorau'r person dim ond ar sail eu hoed, tarddiad ethnig, edrychiad yn gyffredinol, rhywedd neu rywioldeb.

Ni ddylech ychwaith wahaniaethu yn erbyn y person – eu trin yn waeth – am unrhyw un o'r rhesymau hyn. Dylech bob amser ystyried beth fyddai er budd gorau'r person fel unigolyn.

Enghraifft: Ystyried credoau a gwerthoedd

Mae Peter yn ddyn ifanc oedd yn astudio yn y coleg nes iddo fod mewn ddamwain ffordd a chael anaf i'w ymennydd.

Bellach nid oes ganddo alluedd meddyliol i wneud unrhyw benderfyniad mawr am ei arian. Mae'r Llys Gwarchod wedi penodi ei dad yn ddirprwy iddo fel y gall fuddsoddi'r iawndal a dderbyniodd Peter ar ôl y ddamwain.

Mae tad Peter yn gwybod bod gan ei fab wrthwynebiad moesegol cryf iawn i ymddygiad rhai cwmnïau amlwladol.

Mae felly'n dewis cronfa fuddsoddi foesegol. Er ei fod yn anghytuno â barn ei fab, mae'n ystyried ei farn wrth ystyried beth fyddai er budd gorau Peter.

I ddysgu mwy am fudd gorau, dylid darllen Pennod 5 Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol (ar gael yn www.gov.uk/opg/mca-code).

Beth ddylwn ei wneud os...?Penderfyniadau cyffredin fel dirprwy eiddo a materion ariannol

Mae mwy nag un dirprwy

Weithiau bydd y Llys Gwarchod yn penodi dau ddirprwy neu fwy ar gyfer yr un person.

Bydd y llys yn dweud wrthyh sut i wneud penderfyniadau os bydd dirprwy arall. Bydd hyn naill ai:

- gyda'ch gilydd ('ar y cyd') sy'n golygu bod yn rhaid i bob dirprwy gytuno ar benderfyniadau
- ar wahân neu gyda'i gilydd (a elwir fel arfer yn 'ar y cyd ac yn unigol'), sy'n golygu y gall dirprwyon wneud penderfyniadau ar ben eu hunain neu gyda dirprwyon eraill

Enghraifft: Gwneud penderfyniadau ar y cyd

Penodwyd Brett a Lucy yn ddirprwyon eiddo a materion ariannol ar y cyd ar gyfer eu tad, Donald, sydd â chlefyd Alzheimer ac sy'n symud i gartref nysio.

Rhaid i Brett a Lucy benderfynu beth i'w wneud gyda thŷ Donald.

Oherwydd eu bod wedi cael eu penodi'n ddirprwyon ar y cyd, rhaid iddynt gytuno ar bob penderfyniad ariannol a wneir ar gyfer eu tad.

Mae Brett yn meddwl mai gwerthu'r eiddo a buddsoddi'r arian yng ngofal Donald i'r dyfodol fyddai'r peth gorau. Mae ei ferch yn meddwl mai cadw'r eiddo fyddai er budd gorau Donald oherwydd ei fod yn mwynhau ymweld a threulio amser yn ei hen gartref.

Ar ôl gwneud pob ymdrech i holi barn Donald, mae'r teulu'n cyfarfod i drafod pethau. Mae'r dirprwyon yn gwrandao ar farn aelodau eraill o'r teulu cyn cytuno mai cadw'r eiddo am gyn hired ag y gall Donald fwynhau mynd yno fyddai er budd gorau eu tad.

Dw i eisiau hawlio treuliau fel dirprwy neu gael fy nhalu

Gallwch hawlio treuliau rhesymol am bethau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chyflawni eich rôl ddirprwyo, fel galwadau ffôn, postio ac unrhyw gostau teithio angenrheidiol.

Fodd bynnag, ni allwch hawlio costau teithio dim ond am ymweld â'r person yn gymdeithasol, sydd y tu allan i'ch dyletswyddau fel dirprwy a'ch rôl fel ffrind neu aelod o'r teulu.

Ni allwch ychwaith hawlio am yr amser a dreuliwch yn cyflawni eich dyletswyddau oni bai eich bod yn ddirprwy proffesiynol. Nid yw dirprwyon lleyg (heb fod yn broffesiynol) yn cael eu talu.

Nid yw dirprwyon yn cael defnyddio eu rôl er mantais iddyn nhw eu hunain. Gallai'r OPG ofyn i chi egluro eich treuliau yn eich adroddiad dirprwy.

Os ystyrir bod eich treuliau'n afresymol, gallai fod angen i chi eu talu'n ôl. Mewn achosion eithafol, gallai'r Llys Gwarchod benderfynu eich gollwng fel dirprwy.

Cofiwch gofnodi eich treuliau a'ch costau wrth fynd, yn defnyddio'r gwasanaeth adrodd ar-lein ar gyfer dirprwyon. 

Enghraifft: Hawlio treuliau fel dirprwy

Mae Sophia yn ddirprwy eiddo a materion ariannol i'w brawd Roberto, a gafodd anaf i'w ymennydd ar ôl ffit epileptig ddrwg. Mae Roberto bellach yn cael trafferth gwneud penderfyniadau dydd i ddydd ac yn byw mewn cartref gofal.

Mae Roberto yn berchen ar fflat, sy'n cael ei rentu allan gan Sophia i helpu i dalu am ffioedd ei gartref gofal a chostau eraill. Mae weithiau'n mynd i weld ei chyfrifydd i drafod hyn ac agweddau eraill ar ei rôl ddirprwyo. Gall Sophia hawlio treuliau am yr ymweliadau hyn, gan gynnwys petrol ar gyfer y daith a chostau parcio – neu byddai allan o boced am gyflawni ei dyletswyddau dirprwy.

Fodd bynnag, ni all hawlio am dripiâu teuluol i weld Roberto yn y cartref gofal ar ei ben-blwydd ac adeg y Nadolig. Ymweliadau cymdeithasol yw'r rhain a ddim yn rhan o ddyletswyddau Sophia fel dirprwy.

Dw i eisiau gwneud rhodd allan o arian y person

Fel arfer mae gorchmynion eiddo a materion ariannol yn gadael i chi wneud rhai rhoddion ar ran y person a bydd yr OPG yn gofyn i chi egluro unrhyw roddion yn eich adroddiad dirprwy. Mae'r rhan fwyaf o orchmynion llys yn gadael i chi wneud rhoddion ar achlysuron arferol yn unig, fel pen-blwydd neu ben-blwydd priodas.

Cyn gwneud rhodd, dylech ofyn i chi eich hun:

- A fyddai'r person fod eisiau gwneud rhodd fel hyn pe bai ganddynt alluedd meddyliol?
- Ydy gwerth y rhodd yn debyg i roddion a wnaeth y person yn flaenorol i'r person yma neu bobl mewn sefyllfa debyg?
- Ydy'r rhodd y maint iawn i ystâd y person – ydy o'n rhy werthfawr, er enghraifft?
- Ydy sefyllfa ariannol y person wedi newid? Er enghraifft, efallai eu bod wedi symud i gartref nyrsio a ddim yn gallu fforddio rhoi fel o'r blaen

Cofiwch, rhaid i roddion fod er budd gorau'r person nid eich budd gorau chi – felly ni fyddai'n iawn defnyddio arian y person i brynu rhoddion mawr i'ch teulu agos eich hun, er enghraifft, os na fyddai'r person wedi gwneud hynny.

Cyn i chi wneud rhodd ariannol neu eiddo mwy – er enghraifft, wrth gynllunio ar gyfer treth etifeddiaeth – rhaid i chi wneud cais i'r Llys Gwarchod am ganiatâd. Os gwnewch rodd o'r fath heb ganiatâd, efallai y bydd angen i chi ei thalu'n ôl.

I ddysgu mwy am wneud rhodd ar ran rhywun, ewch i [www.gov. uk/ government/publications/giving-gifts-a-guide-for-deputies-and-attorneys](http://www.gov.uk/government/publications/giving-gifts-a-guide-for-deputies-and-attorneys)

Dw i eisiau talu i rywun proffesiynol i helpu i reoli ystâd y person

Fel dirprwy, gallwch gyflogi pobl broffesiynol fel cyfrifwyr a chyfreithwyr i helpu i ofalu am fusnes y person. Er enghraifft, byddai'n rhesymol talu cyfrifydd i ddrafftio ffurflen dreth flynyddol y person pe bai ganddynt bortffolio buddsoddi cymhleth.

Fodd bynnag, efallai na fyddai'n briodol defnyddio cyfreithiwr i wneud rhywbeth eithaf rhwydd fel talu ffioedd cartref nyrsio'r person. Rhaid i wasanaethau proffesiynol y talwch amdanynt fod yn unol â'r dasg sydd eu hangen ar ei chyfer ac arian y person.

Dw i angen trefnu trafodiad busnes i'r person – ydw i'n gyfrifol?

Os byddwch yn trefnu trafodiad busnes gyda rhywun ar ran y person – er enghraifft cyflogi gweithiwr i drwsio tŷ'r person – ni fyddwch yn bersonol gyfrifol am dalu.

Os lluniwch contract ysgrifenedig, rhaid i chi nodi bod y contract rhwng y person – yr ydych chi'n eu cynrychioli – a'r person arall neu gwmni. Wrth lofnodi unrhyw gytundeb ar ran y person, dylech lofnodi yn enw'r person sy'n gweithredu drwyddoch chi fel dirprwy. Er enghraifft:

"Mae'r cytundeb hwn rhwng [enw'r person] yn gweithredu drwy [eich enw chi] ac [enw'r person arall neu gwmni]."

Dw i eisiau gwerthu tŷ'r person

Oni bai fod eich gorchymyn llys yn dweud yn uniongyrchol y gallwch werthu tŷ neu eiddo arall y mae'r person yn berchen neu'n rhannol berchen arno, dylech wneud cais i'r Llys Gwarchod am ganiatâd. Os na wnewch hyn, byddwch yn mentro gweithredu y tu allan i'ch awdurdod fel dirprwy.

Mae'n costio £421 i wneud cais i'r llys – i'w dalu allan o arian y person – a gallai fod costau ychwanegol os oes gwrandawriad llys. Gallwch hefyd wneud cais i dalu llai neu ddim ffi o gwbl am gais i'r llys os yw incwm y person yn isel.

I ddysgu mwy am beth sydd angen ei wneud wrth werthu eiddo'r person, ewch i www.gov.uk/joint-property-ownership

Dw i eisiau gwneud benthyciad o arian y person

Pur anaml y mae gorchmynion llys dirprwyon yn caniatáu benthyciadau. I wneud benthyciad allan o arian y person, bydd angen cais i'r Llys Gwarchod.

Os caniateir benthyciad, mae'n debyg y bydd angen llunio cytundeb benthyciad, yn cynnwys taliadau llog.

O dan y gyfraith, rhaid i chi ofalu am faterion ariannol y person gyda hyd yn oed mwy o ofal na'ch materion ariannol eich hunain.

Dw i eisiau prynu pethau i helpu'r person i deimlo'n well – nid dim ond gofalu am eu harian

Mae gofalu am faterion ariannol y person er eu budd gorau'n fwy na dim ond talu biliau arferol. Dylech hefyd ystyried gwario ar bethau fydd yn cynnal neu'n gwella ansawdd bywyd y person.

Dyma rai enghreifftiau:

- dillad newydd neu drin gwallt
- pethau o'u cartref neu ystafell yn y cartref gofal
- talu am fwy o gymorth fel y gall y person fynd allan mwy, er enghraifft i weld ffrindiau neu berthnasau neu i fynd ar wyliau

Fel gyda rhoddion, rhaid i'r pethau a brynwch fod er budd gorau'r person ac yn unol â gwerth eu hasedau.

Dw i eisiau trosglwyddo fy nyletswyddau dirprwy i rywun arall

Er y gallwch ofyn am gyngor gan bobl eraill – gan gynnwys arbenigwyr – am eiddo a materion ariannol y person, yn gyfreithiol ni allwch fel arfer ddirprwyo (trosglwyddo) eich penderfyniadau i rywun arall.

Gall rhywun arall gymryd eich dyletswyddau dirprwyo drosodd dim ond os yw'r gorchymyn llys yn dweud y medrant gyda rhai pethau.

Fel arall, chi fel dirprwy sy'n gorfod gwneud y penderfyniadau ac sy'n gyfrifol amdanynt.

Mae anghydfod am fy rôl fel dirprwy

Weithiau gall anghydfod ac anghytuno ddigwydd am sut y mae dirprwy'n delio ag eiddo ac arian y person. Gall anghydfod ddigwydd rhwng y dirprwy a'r person, neu gyda phobl eraill sydd â budd yn y person, fel aelodau o'r teulu.

Os ydych yn agored ac yn cynnwys eraill yn eich penderfyniadau, mae problemau'n llai tebygol o ddigwydd.

Dylai dirprwyon neu eraill sy'n rhan o anghydfod geisio ddod i gytundeb rhyngddynt eu hunain i ddechrau. Os nad yw hynny'n gweithio, dylid cysylltu â'r OPG am arweiniad a chynghor.

Dw i angen rhannu manylion personol am y person

Mae gan ddirprwy 'ddyletswydd cyfrinachedd' i beidio â datgelu manylion am faterion ariannol y person oni bai:

- bod y person wedi cytuno i hyn pan oedd ganddynt alluedd
- bod yr OPG yn gofyn am y wybodaeth
- bod rheswm da arall (er enghraifft, gallai'r person neu rywun arall gael niwed os na wnewch hyn)

Dylech dal drafod hyn ag eraill – ffrindiau a theulu'r person, arbenigwyr ariannol neu rai eraill – wrth gyflawni eich dyletswyddau dirprwyo os byddai er budd gorau'r person.



Dylech gofnodi unrhyw werthiant, pryniant ac anghydfod yn eich adroddiad dirprwy ar-lein pan fydd y pethau hyn yn digwydd – bydd yn haws pan fyddwch yn cyflwyno eich adroddiad.

Sut fydda i'n cael fy ngoruchwylio fel dirprwy?

Mae gan yr OPG ddyletswydd gyfreithiol i oruchwylio dirprwyon a benodir gan y Llys Gwarchod.

Mae'r OPG yn teilwrio ei oruchwyliaeth o'ch rôl ddirprwyo i ateb eich anghenion chi a rhai'r person.

Mae goruchwyliaeth yn cynnwys adolygu adroddiadau a gyflwynir gan ddirprwyon a gwneud yn siŵr bod dirprwyon yn gweithredu'n unol â'u gorchymyn dirprwy a'r Safonau Dirprwyon.

Gallwch ffonio'r Tîm Dirprwyon Lleyg ar 0300 456 0300 i drafod unrhyw un o'r materion a godir yn y llawlyfr hwn.

Ymwelwyr y Llys Gwarchod

Weithiau mae'r OPG yn trefnu i ymwelwyr y Llys Gwarchod gyfarfod â'r person a'u dirprwy(on) i weld sut y mae'r rôl ddirprwyo'n mynd ac a oes angen mwy o gymorth arnoch. Gellid hefyd gofyn i ymwelwyr, er yn bur anaml, i ymchwilio i amheuaeth o gam-drin y person.

Yn ogystal â siarad gyda chi a'r person, gall ymwelwyr gysylltu ag eraill sy'n cyfrannu at y rôl ddirprwyo, fel aelodau teulu neu staff meddygol.

Fel dirprwy, rhaid i chi gytuno i gyfarfod ag ymwelydd llys a rhoi unrhyw wybodaeth a ofynnir amdani.

Ymchwiliadau

Os yw'r OPG yn credu nad ydych yn gweithredu er budd gorau'r person, byddwn yn ymchwilio. Gall ymchwiliadau gymryd amser, gan ddibynnu ar ba mor gymhleth ydyn nhw. Tra bydd ymchwiliad yn para, bydd yr OPG yn gweithio gyda phawb perthnasol i sicrhau bod budd gorau'r person yn cael eu cwrdd.

Ond os yw'r OPG yn amau bod dirprwy'n cam-drin neu esgeuluso, gallwn adrodd y mater i'r heddlu.

Canlyniad ymchwiliad

Ar ôl ymchwiliad, gallai'r OPG oruchwylio eich rôl ddirprwyo'n fwy gofalus a chysylltu gyda chi'n amlach.

Os yw'r ymchwiliad yn barnu nad ydych yn gweithredu er budd gorau'r person, wedi methu â glynu wrth y Safonau Dirprwyon, neu wedi camddefnyddio eich rôl fel dirprwy, gallai'r OPG wneud cais i'r Llys Gwarchod i'ch gollwng (tynnu'r rôl ddirprwyo oddi arnoch).

Os yw dirprwy'n camddefnyddio arian person, bydd y llys yn dweud wrth y cwmni bond i 'alw'r bond i mewn'. Bydd y cwmni bond yn talu ychydig o arian i ystâd y person yn syth, fel nad yw'r person yn colli allan. Bydd yna'n ceisio adennill yr arian gennych chi.

Codi pryder

Dylech gysylltu â'r OPG os oes gennych bryderon am y person yr ydych yn gyfrifol amdanynt:

- ar-lein: www.gov.uk/adrodd-pryder-am-atwrnai-dirprwy-warcheidwad
- e-bost: opg.safeguardingunit@publicguardian.gov.uk
- ffôn: 0300 456 0300
- ffonio o'r tu allan i'r DU: +44 (0)203 518 9639
- Relay UK (os na allwch glywed neu siarad ar y ffôn):
18001 0300 123 1300

Byddwn yn ateb eich galwad rhwng Dydd Llun a Dydd Gwener, 9am-5pm; Dydd Mercher, 10am-5pm.

Ffoniwch 999 os yw rhywun mewn perygl ar fyrder, neu eich heddlu lleol os credwch fod trosedd wedi digwydd.

Newid eich rôl ddirprwyo

Rhaid i chi wneud cais i'r Llys Gwarchod os oes angen i chi:

- newid eich rôl ddirprwyo, er enghraifft i wneud penderfyniadau sydd ddim yn y gorchymyn gwreiddiol

- gwneud penderfyniad untro'n unig am rywbeth sydd ddim yn y gorchymyn
- adnewyddu eich rôl ddirprwy (os oes ganddi ddyddiad gorffen)

I wneud cais, dylech lenwi ffurflen gais (COP1) a datganiad tyst (COP24) gan roi manylion sefyllfa ariannol bresennol y person a pham eich bod yn gwneud cais. Dylech yna anfon y ffurflenni i'r llys gyda siec am ffi'r cais o £421, wedi'i dalu allan o arian y person.

Gallwch wneud cais am help i dalu'r ffi os yw'r person yn derbyn rhai budd-daliadau neu ar incwm isel.

Am ffurflenni a mwy o wybodaeth am newid eich rôl ddirprwy, ewch i www.gov.uk/become-deputy/change-deputyship-oneoff-decision

Pryd fydd y rôl ddirprwyo'n gorffen?

Bydd eich rôl ddirprwyo'n gorffen pan fydd un o'r canlynol yn digwydd:

- Mae'r person yn adennill galluedd meddyliol. Os yw hyn yn digwydd, dylech lenwi ffurflen COP9 a'i hanfon i'r Llys Gwarchod gydag unrhyw dystiolaeth ategol, er enghraifft llythyr meddyg.
- Os penderfynwch gamu lawr. I wneud hyn, dylech wneud cais i'r llys drwy ffurflen COP1. Bydd y llys yna'n penodi dirprwy newydd.
- Mae'r person yn marw. Dylech ddweud wrth yr OPG fydd yn egluro beth i'w wneud nesaf. Bydd angen dangos dystiolaeth, fel tystysgrif marwolaeth.
- Mae'r dirprwy'n marw (os yw'n rôl ddirprwy unigol neu ar y cyd). Dylai eich cyfreithiwr neu ysgutor ddweud wrth yr OPG a bydd angen penodi dirprwy newydd.

Dysgwch fwy am ffurflenni a gwybodaeth ategol arall i ddod â'ch rôl ddirprwy i ben. Neu gallwch ffonio'r OPG ar 0300 456 0300 neu'r Llys Gwarchod ar 0300 456 4600.

Rhestr wirio ar gyfer dirprwyon

Gallwch dynnu'r dudalen rhestr wirio hon allan a'i chadw yn rhywle amlwg i'ch atgoffa o'ch tasgau fel dirprwy.

- ☐ Dw i wedi trefnu fy mond Llys Gwarchod.
- ☐ Dw i'n deall telerau'r gorchymyn llys ac nid oes gwallau ynddo (os oes gwallau, dw i wedi dweud wrth y Llys Gwarchod)
- ☐ Dw i wedi rhoi gwybod i'r sefydliadau ac unigolion cywir – banciau, cyfreithiwr y person – mai fi yw dirprwy'r person
- ☐ Dw i wedi darllen safonau dirprwyon yr OPG a'r canllawiau i ddirprwyon llewg
- ☐ Dw i wedi agor cyfrif(on) dirprwy ar wahân (lle bo'n briodol)
- ☐ Dw i'n deall beth y dylwn a beth na ddylwn wario arian y person arno fel dirprwy
- ☐ Dw i wedi cofrestru am y gwasanaeth adrodd ar-lein ac wedi dechrau cofnodi fy mhenderfyniadau a thrafodion ariannol a chadw derbynebaw
- ☐ Dw i'n deall beth y mae galluedd meddyliol yn ei feddwl a sut i wneud penderfyniadau er budd gorau'r person
- ☐ Dw i'n gwybod am y ffioedd – ar gyfer asesu a goruchwyllo dirprwyon – sydd angen i mi dalu'r OPG
- ☐ Dw i'n gwybod bod angen i mi gyflwyno adroddiad dirprwy i'r OPG pan ofynnir i mi, yn dangos sut dw i wedi gofalu am eiddo ac arian y person

Eglurwr jargon

Cam-drin

Cam-drin yw pan fydd rhywun yn sathru ar hawliau dynol neu sifil rhywun. Gallai cam-drin fod yn un weithred neu'n nifer. Gallai hefyd fod yn esgeulustod neu fethu â gweithredu.

Budd gorau

Dylai dirprwyon bob amser ystyried beth fyddai er budd gorau'r person wrth wneud penderfyniad. Dylech hefyd ystyried dymuniadau blaenorol a phresennol y person ac ystyried eu trafod ag eraill. I ddysgu mwy am fudd gorau, ewch i t16 y llawlyfr hwn.

Cod Ymarfer

Mae arweiniad i'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (isod) ar gael yn www.gov.uk/opg/mca-code

Mae'r cod yn cynnwys llawer o wybodaeth werthfawr i ddirprwyon.

Ymwelydd Llys Gwarchod

Rhywun a benodir i adrodd i'r Llys Gwarchod neu Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ar sut y mae dirprwyon yn cyflawni eu dyletswyddau.

Dementia

Term a ddefnyddir am wahanol fathau o salwch sy'n effeithio ar yr ymennydd ac sy'n amharu ar gyflawni tasgau pob dydd. Mae 'dementia' yn disgrifio symptomau, nid y cyflwr ei hun. Mae'r symptomau'n cynnwys:

- colli cof
- trafferth deall pobl a dod o hyd i'r geiriau iawn
- trafferth cwblhau tasgau syml a datrys mân broblemau
- newid hwyliau a chynhyrfu'n emosiynol

Dirprwy

Rhywun a benodir gan y Llys Gwarchod i wneud penderfyniadau ar ran person arall sydd heb alluedd meddyliol i wneud y penderfyniadau hynny eu hunain.

Gellir penodi dirprwy i wneud penderfyniadau am eiddo a materion ariannol, neu les personol, neu am y ddau.

Gall dirprwy fod yn lleyg, fel aelod o'r teulu neu ffrind i'r person sydd heb alluedd meddyliol. Neu gall dirprwy fod yn berson proffesiynol fel cyfreithiwr, cyfrifydd neu'n awdurdod cyhoeddus.

Esemptio neu gwtogi ffioedd

Os yw'r person ar incwm isel, gall y dirprwy wneud cais ar eu rhan am esemptiad (talw dim ffi) neu gwtogi ffi (talw ffi is) ar gyfer ffioedd asesu a goruchwyliaeth yr OPG.

Opsiwn lleiaf cyfyngol

Os nad oes gan y person alluedd meddyliol, rhaid i benderfyniadau a wneir ar eu rhan barchu rhyddid y person i weithredu a bod yr opsiwn lleiaf cyfyngol. Mae hyn yn golygu cadw'r person yn ddiogel a chyfyngu eu hawlau a'u rhyddid cyn lleied â phosib.

Galluedd meddyliol

Gallu gwneud penderfyniad am fater penodol ar yr adeg y mae angen gwneud y penderfyniad hwnnw. Mae'r diffiniad cyfreithiol o berson heb alluedd meddyliol wedi'i ddisgrifio yn adran 2 Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Rhoddir mwy o fanylion am alluedd meddyliol ar dudalen 14 y llawlyfr hwn.

Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Mae'r ddeddf wedi'i dylunio i warchod pobl na fedrant wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Gallai hyn fod oherwydd cyflwr iechyd meddwl, anabledd dysgu difrifol, anaf i'r ymennydd neu strôc. Pwrpas y Ddeddf yw gadael i oedolion wneud gymaint o benderfyniadau eu hunain ag y medrant, ac i ddirprwy neu eraill wneud penderfyniadau ar eu rhan.

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Rhan o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n helpu pobl yng Nghymru a Lloegr i gadw rheolaeth ar eu materion personol ac ariannol a gwneud penderfyniadau pwysig dros eraill na fedrant benderfynu drostynt eu hunain.

P

Term a ddefnyddir weithiau am berson heb alluedd meddyliol y mae'r Llys Gwarchod wedi eich penodi i wneud penderfyniadau am eu heiddo a materion ariannol.

Eiddo a materion ariannol

Unrhyw bethau y mae'r person yn berchen arnynt (fel tŷ neu fflat, gemwaith neu bethau eraill), yr arian sydd ganddynt mewn incwm, cynilion neu fuddsoddiadau, neu unrhyw wariant.

Esgeulustod bwriadol

Pan fydd rhywun sydd â chyfrifoldeb am berson heb alluedd meddyliol i ofalu amdanynt eu hunain yn methu â chyflawni gweithred ofal. Mae hyn yn drosedd o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol.